

Polisi Mynediad
Ysgol Sefydledig Caergeiliog

1. Awdurdod Mynediad - Bwrdd Llywodraethol Ysgol Sefydledig Caergeiliog yw'r Awdurdod Mynediad.

2. Ceisiadau a Chofrestru.

Pe byddech yn dymuno gwneud cais am le a chofrestru eich plentyn i fod yn ddisgybl yn Ysgol Sefydledig Caergeiliog yna gofynnir ichwi wneud apwyntiad i gyfarfod â'r Prifathro a fydd yn eich cyflwyno i Gofrestrydd yr Ysgol. Byddwch yn derbyn Ffurflen Gofrestru i'w chwblhau a fydd yn gofyn am fanylion eich plentyn.-

Y Broses

	Y Ffurflen Gais ar gael o'r Ysgol	Dyddiad cau i dderbyn y ffurflen	Hysbysu'r rhieni
Y Feithrinfa	<i>Medi 1af - y flwyddyn cyn i'ch plentyn ddechrau'r Ysgol.</i>	<i>Mawrth 1af - cyn y Mis Medi y bydd y plentyn yn dechrau'r Ysgol.</i>	<i>Mai 1af - cyn y Mis Medi y bydd y plentyn yn dechrau'r Ysgol.</i>
Dosbarth Derbyn-Blwyddyn 6	<i>Medi 1af - y flwyddyn cyn i'ch plentyn ddechrau'r Ysgol.</i>	<i>Mawrth 1af - cyn y Mis Medi y bydd y plentyn yn dechrau'r Ysgol.</i>	<i>Mai 1af - cyn y Mis Medi y bydd y plentyn yn dechrau'r Ysgol.</i>

Cewch bob dogfennaeth sy'n ymwneud â Chofrestru Disgyblion gan Gofrestrydd Ysgol Sefydledig Caergeiliog, Lon Bach, Caergeiliog, Caergybi, Ynys Môn. LL653NP.

Gwahoddir rhieni sydd yn awyddus i gofrestru eu plentyn yn yr Ysgol i gysylltu â'r Ysgol i wneud apwyntiad i gyfarfod y Cofrestrydd i -

egluro polisiâu
eich tywys o amgylch yr Ysgol a'ch cyflwyno i staff.
ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych

Gellir cysylltu â'r Cofrestrydd ar 01407 740619.

3. Mynediad

Cynigir addysg rhan amser i blant sydd yn 3 oed cyn Medi 1af

Cynigir lle llawn amser i blant sydd yn 4 oed cyn Medi 1af. Nodwch: Adran 8 Y Ddeddf Addysg 1996 a'r Gorchymun Addysg 1998 (ynghlyn â oedran gorfodol i ddechrau Ysgol) sydd yn egluro fod plentyn yn cyrraedd oed gorfodol i fynd i'r Ysgol yn y tymor yn dilyn ei 5 oed. Y dyddiadau rhagnodedig yw Awst 31ain, Rhagfyr 31ain a Mawrth 31ain.

Yn unol â Deddf Addysg 1998 mae gan yr Ysgol uchafswm nifer mynediad. Os yw'r nifer o geisiadau am le yn is na'r uchafswm nifer mynediad bydd yr Ysgol yn derbyn yr holl geisiadau am le a waned. Mae'r uchafswm nifer wedi ei bennu trwy ddefnyddio fformiwla cynhwysedd sydd yng nghylchlythyr Llywodraeth Cymru - 'Measuring the Capacity of schools in Wales.'

Nid yw'r ffaith fod plentyn wedi ei dderbyn ar gyfer Y Feithrinfa yn golygu o reidrwydd fod ganddo le yn y Dosbarth Derbyn. - dylid gwneud cais o'r newydd.

Yn ystod y cyfnod derbyn plant arferol bydd rhieni yn derbyn cadarnhad ysgrifenedig ar y dyddiad a nodir yn Rhan 2 o'r uchod, fod lle yn cael ei gynnig / nad oes lle ar gael i'w plentyn yn yr Ysgol.

Os bydd unrhyw un yn gwneud cais am le yn yr Ysgol ar ddyddiad na sydd o fewn y cyfnod derbyn plant arferol, byddant yn derbyn Ffurflen Gofrestru i'w chwblhau. Unwaith y bydd yr Ysgol wedi ei derbyn yn ôl bydd y Cofrestrydd yn hysbysu'r rhieni os yw'r Ysgol yn gallu cynnig lle i'w plentyn o fewn 15 diwrnod Ysgol neu o fewn 28 diwrnod calendr.

Bydd yr Ysgol yn derbyn ceisiadau 'hwyr' (tu allan i'r cyfnod gwneud cais arferol) am le os bydd rheswm digonol am hyn - bod y teulu wedi symud i'r ardal ar fyr rybudd. Bydd lle yn cael ei gynnig i Blant Mewn Gofal neu blant sydd â Datganiad ADY os yw'r Ysgol wedi ei henwi yn uniongyrchol, pryd bynnag fydd y cais wedi ei wneud

Wrth ddelio gyda cheisiadau 'hwyr' mae'n ofynnol fod awdurdod mynediad yn cyd fynd â dymuniad y rhieni neu ddymuniad y person ifanc os yw ym Mlwyddyn 6 os nad yw un o'r rhesymau statudol (gwelwch baragraff 2.1) dros wrthod mynediad yn berthnasol.

Tra bod yr Ysgol yn derbyn fod angen cael lle mewn ysgol i blentyn nad yw mewn addysg mae'r Ddeddf Addysg 1996 yn caniatáu gohirio mynediad hyd ddechrau'r tymor ysgol. Mewn achosion o drosglwyddo Ysgol ble nad yw'r teulu yn symud tŷ neu nad oes gofyn am drosglwyddiad heb oedi yna gall yr Ysgol awgrymu fod y plentyn yn cael mynediad ar ddechrau tymor er mwyn lleihau'r aflonyddwch i addysg y plentyn a phlant eraill. Ni ddangosir unrhyw ragfarn tuag at blant bregus megis y rhai a ddisgrifir yn y paragraffau sy'n dilyn.

Ymdrinnir â cheisiadau am leoedd dros dro yn yr Ysgol yn yr un modd â phob cais arall am fynediad.

Bydd yr un rhesymau statudol dros wrthod mynediad yn berthnasol tu allan i gyfnod mynediad arferol a gyda cheisiadau arferol.

Ni fydd yr Ysgol yn gwrthod mynediad i blentyn ar sail ei fod wedi dilyn cwricwlwm gwahanol yn ei Ysgol/hysgol flaenorol.

Os bydd yr Ysgol yn derbyn cais am fynediad tu allan i gyfnod cais am fynediad arferol ac sydd am ddyddiad ac amser yn y dyfodol (ee fod teulu yn symud i'r ardal ymhen misoedd) bydd yr Ysgol yn ystyried yn ofalus amgylchiadau'r cais a'r cyfnod rhesymol y dylid cadw'r lle i'r plentyn. Nid yw'r Ysgol yn ystyried ei bod yn addas i gadw lle i blentyn am fwy nac un tymor Ysgol.

Mwy nac un plentyn

Mewn achos ble mae nwy nac un plentyn mewn teulu a'r Ysgol yn gallu cynnig lle i un o'r plant ond nid i'w frodyr neu chwiorydd bydd yr achos yn cael ei gyfeirio at y Pwyllgor Mynediad a sefydlwyd gan y Bwrdd Llywodraethol, i gael ei ystyried.

4. Tros danysgrifiad

Pe byddai'r nifer o geisiadau am fynediad yn uwch nag yw'r Rhif Mynediad Ysgol bydd disgyblion yn cael eu derbyn hyd y rhif mynediad yn ôl y meini prawf isod, a restrir yn ôl eu blaenoriaeth:

Bydd plant sydd â Datganiad o Anghenion Dysgu Ychwanegol sydd yn enwi'r Ysgol yn cael mynediad pa bryd bynnag y gwnaed y cais.

1. Bydd blaenoriaeth yn cael ei roi i Blant Mewn Gofal a phlant sydd wedi bod mewn gofal. Mewn achosion o'r fath, byddai angen cadarnhad gan ymgynghorwyr proffesiynol ee Swyddogion Gwasanaethau Cymdeithasol, Uwch Swyddogion Meddygol

2. Disgyblion yr argymhellir iddynt gael mynediad i'r Ysgol o ganlyniad i resymau cymdeithasol neu feddygol eithriadol. Mewn achosion o'r fath, byddai angen cadarnhad gan ymgynghorwyr proffesiynol ee Paediatregydd Sirol/ Uwch Swyddog Meddygol.

3. Cysylltiadau brodyr a chwiorydd. Mae hyn yn cynnwys disgyblion sydd eisoes â brodyr a/neu chwiorydd yn yr Ysgol, llys frawd/chwaer, hanner brawd/chwaer, brodyr neu chwiorydd sydd wedi eu mabwysiadu neu wedi eu maethu.

Pen Ben.

Pan fo mwy nac un plentyn yn gyfartal haeddiannol i fynediad i'r Ysgol bydd pellter o'r cartref i'r Ysgol yn cael ei ddefnyddio i benderfynu pa blentyn fydd yn cael cynnig lle. Bydd blaenoriaeth yn cael ei roi i'r plentyn sydd yn byw agosaf i'r Ysgol a'r llwybr cerdded agosaf sydd ar gael rhwng y cartref a'r Ysgol. Cyfrifir y pellter o ddrws yr adeilad ble mae'r plentyn yn byw i Brif Fynediad yr Ysgol gan ddefnyddio meddalwedd llywio lloeren Garmin. Bydd angen prawf o breswiliad ac os na ellir dangos dogfennau cyfreithiol ee Dogfen Cwrt 'Preswilio' byddwn yn cymryd yn ganiataol mai cartref y plentyn yw'r man ble mae yn byw'r mwyafrif o'r 5 niwrnod Ysgol (ee nos Sul hyd nos Iau).

Os nad yw'r Ysgol yn gallu cynnig mynediad i ddisgybl bydd yr Ysgol yn egluro'r penderfyniad yn ysgrifenedig gan hysbysu'r rhieni ynglŷn â'u hawl i wneud apêl i banel apêl annibynnol a'r ffordd y dylent wneud hyn.

5. Trefniadau Apêl.

Dylai'r rhieni sydd yn dymuno apelio yn erbyn penderfyniad yr Ysgol i wrthod mynediad wneud hynny yn ysgrifenedig o fewn 15 niwrnod i'r amser y gwrthodwyd y cais am le.

Dylai'r apêl gael ei chyflwyno yn ysgrifenedig ar ffurf copi caled ysgrifenedig a'i chyfeirio at sylw : Cadeirydd Y Bwrdd Llywodraethol, Ysgol Sefydledig Caergeiliog, Lon Bach, Caergeiliog, Ynys Môn, LL653NP gan nodi 'Personol a Chyfrinachol' ar y llythyr.

Bydd panel apêl yr Ysgol yn cyfarfod o fewn 5 wythnos o dderbyn yr apêl ac fe hysbysir rhieni o benderfyniad y panel o fewn 5 niwrnod wedi i'r panel gyfarfod.

Os cred y rhieni a wnaeth yr apêl fod y panel wedi ymddwyn yn amhriodol ac yn afresymol wrth drafod yr achos gall y rhieni wneud cwyn pellach i gael ei ymchwilio gan Gomisiynydd Gweinyddol Lleol (ombwdsman Llywodraeth Leol) neu

geisio adolygiad barnwrol. Ni does gan Lywodraeth Cymru unrhyw rym i ystyried cwynion yn erbyn paneli apêl annibynol.

6. Rhestr Ddisgwyl

Mae'r Ysgol yn cadw Rhestr Ddisgwyl o ymgeiswyr nad ydynt wedi llwyddo i gael mynediad i'r Ysgol. Mewn achlysur ble nad yw'r Ysgol wedi gallu cynnig lle i ymgeisydd yna gofynnir i'r rhieni hysbysu'r Ysgol yn ysgrifenedig i nodi os ydynt am i enw'r plentyn gael ei gadw ar y Rhestr Ddisgwyl. Os oes lle yn dod yn rhydd yn yr Ysgol yna bydd lle yn cael ei gynnig i'r plant sydd ar y rhestr ddisgwyl gan ddilyn y meini prawf tros danysgrifio.

Ni roddi unrhyw flaenoriaeth i geisiadau yn ôl y dyddiad y'i rhoddir ar y Rhestr Ddisgwyl.

7. Cynhwysedd a Nifer Mynediad

Cynhwysedd Ysgol: 422+43 Meithrinfa

Nifer Mynediad: 60